COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 209

Amseru: Arferol

Teitl: Cyllido prosiect peilot tai'r Tîm Rheoli Troseddwyr yn Integredig.

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol:

Mae'r Tîm Rheoli Troseddwyr yn Integredig wedi nodi angen i ddiogelu defnydd o eiddo addas hunangynhwysol, canol y sir drwy'r flwyddyn i'w ddefnyddio fel uned Llety Argyfwng Dros Dro ar gyfer lleoli cleientiaid tra bod datrysiadau llety arall mwy addas a thymor hir yn cael eu darganfod. Bwriedir y bydd y lleoliad ar sail trwydded am ddim mwy nag ychydig wythnosau ar y tro, gan felly fod ar gael yn rhwydd ar gyfer defnydd parhaus yn ôl y galw.

Mae Timau Rheoli Troseddwyr yn Integredig yn aml yn adolygu achosion lle mae'r unig beth sydd ei angen i geisio torri'r cylch troseddu yw lleoliad lle gellir symud y troseddwr o'u hamgylchfyd negyddol. Mae'r cynllun peilot hwn yn flaengar ac yn holistaidd yn ei ymagwedd ac yn brosiect cyffrous y gellid ei ddangos i ardaloedd eraill os ystyriwyd ef yn llwyddiannus.

Cynigiwyd trefniant peilot gydag ymrwymiad allweddol wedi ei ddarparu gan yr Heddlu, Barcud a'r Gymdeithas Gofal. Gwneir cais am gyfraniad o £10,000 gan y CHTh er mwyn sefydlu'r rhaglen beilot.

Mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth mewn lle yn gosod y protocolau a'r rhwymedigaethau y cytunwyd arnynt, a'r rolau a'r cyfrifoldebau y bydd pob Parti'n glynu atynt. Bydd y prosiect peilot yn para am flwyddyn gyda chyllideb benodedig. Bydd llwyddiant y prosiect yn cael ei fonitro er mwyn canfod pa mor llwyddiannus ydyw ac er mwyn hysbysu dyfodol y prosiect.

Bydd y cyllid yn cael ddarparu o ganlyniad i danwariant yng nghyllideb Comisiynu'r CHTh.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Argymhelliad:

Bod y CHTh yn cymeradwyo cyfraniad o £10,000 er mwyn peilota prosiect tai'r Tîm Rheoli Troseddwyr yn Integredig.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: **Dyddiad: 24/2/2021**

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER